Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Branas

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Branas yn darparu addysg arbenigol, gofal preswyl a therapi i fechgyn rhwng 11 ac 16 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol. Caretech Ltd sy’n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Ar hyn o bryd, mae 17 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ddeuddeg o’r disgyblion. Mae pob un o’r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae pob un o’r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ac yn byw mewn cartrefi plant sy’n cael eu rhedeg gan Caretech. Mae’r cartrefi plant wedi’u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym Mehefin 2014. Penodwyd y pennaeth presennol yn 2010.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau’r ysgol:**

- Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’u gallu ac anghenion a nodwyd
- Mae bron pob un o’r disgyblion yn ennill y medrau y mae eu hangen arnynt i gynyddu eu hannibyniaeth ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn pontio’n llwyddiannus i golegau addysg bellach
- Mae cysylltiadau effeithiol ag ystod eang o bartneriaid yn rhoi cyfleoedd dysgu a phrofiad gwaith gwerthfawr i ddisgyblion; mae’r rhain yn cyfateb yn dda i oedran, gallu a diddordebau disgyblion
- Mae staff addysg, therapi a chymorth gofal yn gweithio’n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran presenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion
- Mae’r pennaeth yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol
- Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu anogol lle y mae perthynas waith dda rhwng staff a disgyblion

### Meysydd i’w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i’w datblygu:**

- Nid yw datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion wedi’u cydlynu ar draws y cwricwlwm; o ganlyniad, nid yw’r medrau hyn wedi’u gwreiddio ar draws pob maes dysgu yn ddigon da

- Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu arfer dda rhwng athrawon wedi'u tanddatblygu
- Mae angen cryfhau'r trefniadau i ddisgyblion ennill gwerthfawrogiad o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws yr ysgol i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol
A2 Cynyddu'r cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer orau mewn addysgu yn yr ysgol ac mewn lleoliadau eraill
A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a dathlu ystod ehangach o ddiwylliannau a thraddodiadau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau prydlon i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ac mae bellach yn bodloni'r safonau rheoleiddiol ar gyfer lles, iechyd a diogelwch disgyblion, a rheoli cwynion, yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch i gynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli risg a gwell hyfforddiant i staff ar bob lefel. Mae'r perchennog yn dwyn arweinwyr i gyfrif am safonau iechyd a diogelwch trwy ymweliadau sicrhau ansawdd rheolaidd a chyfarfodydd misol.

Mae'r ysgol yn cynnal cofrestr derbyn briodol.

Mae arweinwyr wedi adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli cwynion. Mae'r gweithdrefnau bellach yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol perthnasol.

### Argymhelliad 2: Gwella ansawdd y cwricwlwm trwy ddatblygu cynlluniau gwaith addas

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae cynlluniau gwaith priodol sydd wedi'u seilio'n agos ar ofynion cyrsiau achrededig yn ategu polisi'r cwricwlwm. Mae athrawon yn addasu cynlluniau gwaith yn ofalus i gynllunio profiadau dysgu sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd disgyblion.
Er enghraifft, mae cynllun gwaith addysg gorfforol cyfnod allweddol 4 yn rhoi dewis o chwaraeon i ddisgyblion sy'n adlewyrchu eu doniau a'u diddordebau'n dda. Mae

unedau yng nghynllun gwaith mathemateg yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol disgyblion, fel y gallu i gynllunio a rheoli cyllideb. Mae cynllun gwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion am faterion cyfoes pwysig fel democratiaeth ac etholiadau seneddol.

Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm yn ddigon manwl.

**Argymhelliad 3: Sicrhau y gwneir cynlluniau ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu manwl sy'n amlinellu camau gweithredu, amserlenni ac adnoddau priodol i wella datblygiad medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r perchenogion wedi darparu offer ychwanegol i wella'r ddarpariaeth TGCh ac maent yn archwilio ffyrdd o sicrhau cysylltiadau dibynadwy â'r rhyngrwyd ym mhob ardal ddysgu. Mae arweinwyr wedi llunio partneriaeth ddefnyddiol gydag asiantaeth allanol i gynorthwyo athrawon wrth gynllunio i integreiddio medrau i brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, newydd gael eu rhoi ar waith y mae'r trefniadau hyn ac mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith ar safonau disgyblion.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon gyfrifoldeb unigol am gynllunio a chyflwyno pynciau unigol ar draws yr ysgol ac maent wedi dechrau amlygu cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion mewn cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith. Mae arbenigwyr pwnc yn cynllunio'n dda i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion mewn Saesneg, medrau rhifedd mewn mathemateg a medrau TCGh mewn gwersi TGCh ar wahân. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cydlynu'r medrau hyn yn ddigon da i sicrhau bod profiadau disgyblion ar draws pob pwnc wedi'u cydlynu, ac mae'r cyfleoedd i athrawon gynllunio ar y cyd yn gyfyngedig. O ganlyniad, caiff cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r medrau hyn mewn meysydd pwnc eraill eu colli.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod dysgwyr yn cyfrannu at asesu ac adolygu eu perfformiad a'u bod yn gwybod am eu targedau datblygu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gymryd rhan weithgar mewn cynllunio eu dysgu eu hunain ac mae wedi gwella gweithdrefnau i ddisgyblion adolygu eu perfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau newydd i ddisgyblion osod ac adolygu eu targedau dysgu ym mhob pwnc mewn arfarniadau diwedd uned.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynnydd yn y cyfleoedd am hunanasesu. Mae eu cyfraniadau'n dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod ym mhle y maent wedi gwneud cynnydd ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gosod targedau priodol o heriol i'w hunain sy'n cysylltu'n dda â'u nodau datganedig.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr a'u bod yn manteisio ar dystiolaeth o ystod eang o randdeiliaid**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi cryfhau'r broses hunanarfarnu trwy wella gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, staff a disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion rannu eu barn a chodi pryderon trwy drefniadau effeithiol ar gyfer gwrando ar ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys fforwm misol i ddisgyblion, defnyddio holiaduron a Branas Bugle, sef papur wedi'i olygu gan y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cyfarfod â staff yn rheolaidd i drafod materion o bryder ac maent wedi cyflwyno arolwg rhanddeiliaid sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd yr addysgu, safonau disgyblion a lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r prif faterion a godir yn arolygon rhanddeiliaid ac maent wedi blaenoriaethu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon ynddynt yn briodol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Branas |
| **Rhif yr ysgol** | 663/6040 |
| **Diben yr ymweliad** | Adroddiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 05/05/2015 |
| **Perchennog** | Canolfan Datblygu Personol Branas Isaf |
| **Staff** | 7 athro amser llawn<br>2 athro rhan-amser<br>1 gweinyddwr |
| **Nifer y disgyblion** | 17 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 09/06/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 25/02/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |